

# Busnes Cymdeithasol Cymru

[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy](https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy)



Wales Co-operative Centre  
Canolfan Cydweithredol Cymru

Lleol, tecach, cryfach:

busnesau cymdeithasol yn creu twf yng Nghymru

## 04 | Astudiaeth achos: Croesffyrdd Sir Gâr



**Busnes | Business  
Cymru | Wales**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund**

# wavehill

social and economic research  
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Awduron: Eva Trier, Endaf Griffiths a  
Ioan Teifi, Wavehill Ltd

Comisiynwyd a chyhoeddwyd gan Busnes  
Cymdeithasol Cymru.

Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan  
Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a  
Llywodraeth Cymru. Fe'i darperir gan  
Ganolfan Cydweithredol Cymru fel rhan o  
wasanaeth Busnes Cymru.

Canolfan Cydweithredol Cymru  
Y Borth  
13 Ffordd Beddau  
Caerffili  
CF83 2AX

0300 111 5050  
info@wales.coop  
www.wales.coop

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch hefyd i'r holl unigolion a  
roddodd o'u hamser i helpu gyda'r ymchwil a  
gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Meirion Thomas o  
Penbryn Consulting a Keith Edwards o Keith  
Edwards Ltd. a gynigiodd eu myfyrdodau ar dwf  
busnesau cymdeithasol, gan ddefnyddio  
busnesau'r astudiaethau achos fel enghreifftiau.

Ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl  
heb yr holl gyfraniadau hyn.

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru  
Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol  
Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf  
Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd  
Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.  
Ni fydd oedi os byddwch yn gohebu â ni yn Gymraeg.

## 04 | ASTUDIAETH ACHOS Croesffyrdd Sir Gâr

### Lleoliad y busnes

Llanelli  
SA15 2TH

### Prif weithgarwch y busnes

Gofal amgen, gofal cartref a  
gwasanaeth gwybodaeth i ofalwyr.

### Maint y busnes

123 o staff.  
Trosiant o tua £2 miliwn yn 2016.

Yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth bod gofalwyr angen seibiant, cafodd Gofal Croesffyrdd ei sefydlu yn Rugby ym 1974 fel elusen i ddarparu cymorth i ofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal.

Yn fuan wedi hynny, sefydlwyd Croesffyrdd yn Llanelli (un o'r cyntaf yng Nghymru) ym 1981 ac un arall yng Nghaerfyrddin ym 1993.



## 04 | ASTUDIAETH ACHOS Croesffyrdd Sir Gâr

Yn 2007, ar ôl bod yn gweithredu fel sefydliadau ar wahân am oddeutu 25 mlynedd, unodd y ddau gynllun i greu Croesffyrdd Sir Gâr, gan gadw'r swyddfeydd yn y ddau leoliad. Cafwyd newid strwythurol arall ar lefel y DU yn 2012 pan unodd Gofal Croesffyrdd ac Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr i greu Ymddiriedolaeth y Gofalwyr.

Mae Croesffyrdd Sir Gâr yn elusen gofrestredig sy'n gwbl annibynnol ar sefydliad Ymddiriedolaeth y Gofalwyr sy'n gweithredu ledled y DU, ond yn gysylltiedig â nhw fel Partner Rhwydwaith. Yn gyfnewid am ffi gysylltu, mae'r sefydliad yn derbyn amryw o fuddion, gan gynnwys yswiriant, polisïau a gweithdrefnau, rhwydweithio, hyfforddiant a mwy.

Mae Croesffyrdd yn cynnig dau wasanaeth craidd; gofal cartref mewn lleoliad ar ffurf gwasanaeth gofal amgen i ofalwyr, a Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Sir Gâr, sef gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i ofalwyr.

Croesffyrdd yw dewis cyntaf yr awdurdod lleol ar gyfer gofal amgen, ac mae'r gwasanaeth yn cynnwys cyflenwi dros ofalwyr di-dâl am rai oriau fel y gallant gael seibiant o'u rôl ofalu. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr yn cael ei ariannu ar y cyd gan Gyngor Sir Gâr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth cyfrinachol am ddim i ofalwyr. Mae'n cael ei ddarparu trwy gyfuniad o wasanaeth ffôn a rhaglen allgymorth ac mae'n darparu cymorth un-i-un trwy wybodaeth ac atgyfeirio i wasanaethau priodol. Mae gofalwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf hefyd trwy ffeithlenni a chylchlythyrau rheolaidd a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac fe'u gwahoddir i ddigwyddiadau rheolaidd a ddarperir gan Croesffyrdd mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

Mae darparu'r cymorth cyfannol hwn, gan gwmpasu gwybodaeth reolaidd a seibiannau yn eu cyfrifoldebau gofalu, yn hollbwysig i helpu gofalwyr i reoli effaith gofalu ar eu bywydau.

### Proffil y bobl

Mae Croesffyrdd yn cyflogi 90 o aelodau staff llawn amser a 33 o aelodau staff rhan-amser. Mae staff yn elwa ar gyfleoedd datblygu gyrfa trwy fynychu cyrsiau hyfforddi, gan gynnwys hyfforddiant mewnol, a gynlluniwyd i sicrhau gwasanaeth gofal o safon uchel bob amser.

Mae'r sefydliad yn cael ei reoli gan fwrdd o naw Ymddiriedolwr sy'n cyfrannu amrywiaeth o wybodaeth ac arbenigedd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr gofalwyr, cynghorydd lleol, gweithwyr iechyd proffesiynol sydd wedi ymddeol, pennaeth ysgol a chyfrifydd o'r bwrdd iechyd lleol fel trysorydd. Mae pob un o aelodau'r Bwrdd yn byw yn Sir Gâr, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi gweithio yno hefyd.

Mae Croesffyrdd yn cynnig dau wasanaeth craidd; gofal cartref mewn lleoliad ar ffurf gwasanaeth gofal amgen i ofalwyr, a Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Sir Gâr, sef gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i ofalwyr.



## Proffil ariannol

Mae caffael cyhoeddus yn hollbwysig i'r cwmni, a dyma oedd tua thri chwarter o incwm y cwmni yn 2016. O drosiant 2016 (tua £2 filiwn), cafodd £1.5 miliwn ei gynhyrchu trwy gontractau cyhoeddus, cafodd £250,000 ei godi mewn cyllid grant a derbyniwyd gweddill yr incwm trwy wasanaethau y talwyd amdanynt.

Ar ddiwedd 2016, roedd Croesffyrdd mewn sefyllfa ariannol gref, gydag £1.3 miliwn wrth gefn. Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ddatblygu'r busnes e.e. ehangu swyddfeydd, recriwtio ac ati. Mae gallu gwneud y buddsoddiad hwn i gefnogi llif arian wrth ehangu'r busnes yn galluogi'r cwmni i gynyddu capasiti pan fo gwaith newydd yn cael ei sicrhau. Yna, trwy adennill y costau'n llawn, mae'r busnes yn gallu ailgyflenwi'r cronfeydd wrth gefn.

## Trywydd y twf ac effaith ar y gymuned

Dros y degawd diwethaf, mae Croesffyrdd wedi tyfu o gronfa staff o oddeutu 50 o weithwyr cyflogedig i oddeutu 120 heddiw. Mae ymateb i anghenion newidiol yn y sector gofal ac arallgyfeirio gwasanaethau i fachu ar gyfleoedd newydd wedi bod yn allweddol i sicrhau'r twf hwn. Er iddo gychwyn trwy ddarparu gwasanaeth eistedd i mewn traddodiadol, sylfaenol a oedd yn canolbwyntio ar bobl hŷn yn bennaf, dros y degawd diwethaf mae'r cwmni wedi ehangu ac arallgyfeirio'r cynnig. Mae'r gwaith o ddatblygu cynnyrch wedi'i hwyluso trwy ennill contractau i ddarparu gwasanaethau gofal newydd a hyfforddi staff yn unol â hynny.

Mae'r templed ar gyfer y dull hwn wedi deillio yn sgil contract a enillwyd i ddarparu gofal i blant ag anableddau dysgu a chorfforol e.e. plant ag anhwylder ar y sbectrwm

awtistig, parlys yr ymennydd, epilepsi ac ati. Er mai ychydig iawn o brofiad oedd ganddynt o ddarparu gofal o'r fath, roedd hwn yn faes newydd i roi cynnig arno. Y cyfle nesaf a fachwyd arno oedd cyfle i wneud cais i ddarparu cymorth i rieni plant â chlefydau sy'n cyfyngu ar eu bywydau. Unwaith eto, roedd hyn yn galluogi'r cwmni i ddatblygu'r capasiti trwy recriwtio a hyfforddi staff i ddarparu ar gyfer plant â'r anghenion hynny.

Arweiniodd y dull hwn at y twf graddol yn incwm a gweithlu'r cwmni, ynghyd ag ehangu ei alluoedd a maint y ddarpariaeth. Erbyn hyn, maent yn gallu darparu gwasanaethau na all unrhyw ddarparwyr lleol eraill, na'r awdurdod lleol ei hun, eu cynnig. Er enghraifft, mae gan Croesffyrdd staff cymwys a phrofiadol sydd wedi'u hyfforddi a'u hyswiro i roi bwyd a meddyginiaeth trwy diwb PEG i'r person sy'n derbyn gofal; nid oes yr un darparwr lleol arall yn gallu gwneud hyn.

Dros y degawd diwethaf, mae Croesffyrdd wedi tyfu o gronfa staff o oddeutu 50 o weithwyr cyflogedig i oddeutu 120 heddiw.

## 04 | ASTUDIAETH ACHOS Croesffyrdd Sir Gâr

Y gweithgarwch newydd mwyaf arwyddocaol, fodd bynnag, oedd sicrhau'r contract i ddarparu Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Sir Gâr ar ran yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd. Mae hwn yn gontract mawr sydd wedi dod yn rhan annatod o gynnydd Croesffyrdd Sir Gâr.

Yn ogystal, mae'r tîm wedi datblygu ei wasanaeth talu ffioedd preifat ei hun ar gyfer gofal cartref, ac mae cynnydd mawr wedi bod yn y galw am hyn. Hyd at ddwy flynedd yn ôl, roedd gofal amgen yn cael ei ddarparu am ddim trwy'r awdurdod lleol. Ers hynny, fodd bynnag, o ganlyniad i newidiadau yn y meini prawf cymhwysedd a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol, mae llawer yn gorfod talu am y gwasanaeth hwn, sydd bellach yn seiliedig ar brawf modd. Mae'n well gan rai gofalwyr dalu Croesffyrdd yn uniongyrchol am ei wasanaethau yn hytrach na mynd trwy'r broses awdurdod lleol.

Mae'r ysgogiad ar gyfer twf yn ddeublyg. Ar yr ochr fusnes, mae twf wedi gwneud y cwmni'n fwy sicr yn ariannol, wedi cryfhau ei sefyllfa yn y farchnad ac wedi galluogi iddo ddatblygu ei gapasiti a'i alluoedd. Fodd bynnag, mae mwy i dwf na rhesymau ariannol a busnes; y prif ysgogiad yw gwneud yr hyn y mae'n ei wneud yn dda i fwy o bobl a darparu gwasanaeth cystal â phosibl i ofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal.

Mae sefydliadau sector cyhoeddus yn dechrau sylweddoli pa mor bwysig yw hi i gefnogi'r gofalwyr, ac mae Croesffyrdd yn derbyn mwy a mwy o gydnabyddiaeth am safon y gofal y mae'n ei ddarparu. Gyda'r boblogaeth yn heneiddio, mae'r galw am ofal yn cynyddu ac mae'n bwysig sicrhau bod pobl yn gallu derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain - mae'n fwy cost-ffeithiol i bwrs y wlad ac yn fwy urddasol i'r rhai sy'n derbyn gofal. Os yw gofalwyr yn derbyn cymorth digonol a'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mae'r rhai sy'n derbyn gofal yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt - yn eu cartrefi eu hunain - am gyfnod hwy.

Ochr yn ochr ag ehangu'r gwasanaethau y gall eu cynnig, mae Croesffyrdd yn ystyried datblygiad gyrfa a datblygiad personol ei staff o ddifrif. Safonau AD cryf mewn theori ac mewn ymarfer yw un o'r egwyddorion pwysicaf, ac mae'r gyfradd cadw staff ragorol yn dystiolaeth o hynny. Fel arfer, mae trosiant staff uchel yn nodweddiadol o'r sector gofal iechyd (yn enwedig ym maes gofal oedolion). Mae Croesffyrdd, fodd bynnag, wedi newid y duedd hon ac mae'n cael ei gydnabod gan yr awdurdod lleol ac AGGCC am ei gyfradd cadw staff uchel.

Er mwyn cadw morâl y staff yn uchel, mae Croesffyrdd yn darparu gwasanaeth wedi'i arallgyfeirio gyda chyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa cysylltiedig, gan gynnwys y rhai a nodir gan y staff eu hunain. O ganlyniad, mae tri aelod o staff wedi mynd ymlaen i ddod yn nyrsys cymwys yn dilyn cymorth ac anogaeth gan y cwmni.

Er mwyn cadw morâl y staff yn uchel, mae Croesffyrdd yn darparu gwasanaeth wedi'i arallgyfeirio gyda chyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa cysylltiedig, gan gynnwys y rhai a nodir gan y staff eu hunain.

Mae elfennau allweddol ar gyfer twf llwyddiannus a nodwyd gan Croesffyrdd Sir Gâr yn cynnwys: bod yn gadarn yn ariannol a llywodraethu cryf; enw da am wasanaethau o safon trwy weithlu ymroddgar; cysylltiadau rhagorol â rhanddeiliaid; a'r ewyllys i arallgyfeirio gwasanaethau.

Y prif heriau i dwf yw recriwtio pobl â'r sgiliau iawn sy'n angerddol am eu gwaith. Mae'r cynnydd yn yr isafswm cyflog cenedlaethol wedi bod yn anodd i Croesffyrdd Sir Gâr ei roi ar waith. Roedd anhawster hefyd o ran recriwtio pobl ifanc â'r profiad angenrheidiol gan na allant gael profiad gwaith ymarferol mewn gofal iechyd o dan 18 oed.

### Safle cystadleuol

Tan yn ddiweddar, mae Croesffyrdd wedi bod yn canolbwyntio ar Sir Gâr gan fod ganddo Bartneriaid Rhwydwaith yn yr ardaloedd cyfagos ac nad oedd am gystadlu yn eu herbyn. Mae datblygiadau diweddar yn newid y dirwedd hon gan fod Ymddiriedolaeth Gofalwyr Bae Abertawe wedi ei diddymu a gan fod


pethau'n newid yn y siroedd cyfagos. Felly, mae Croesffyrdd Sir Gâr yn paratoi eu hunain i wneud cais am waith mewn siroedd cyfagos os bydd y cyfle'n codi.

Mae cystadleuwyr eraill yn cynnwys nifer fach o ddarparwyr gofal trydydd sector yn yr ardal, gan gynnwys Gwalia a'r Groes Goch, ynghyd â llawer o sefydliadau sector preifat. Mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau hynny, fodd bynnag, yn canolbwyntio ar alwadau gofal personol sy'n para tua hanner awr fel arfer, ond prif ffocws Croesffyrdd yw darparu gwasanaeth gofal amgen llawn sy'n cynnwys cyflenwi dros ofalwyr am rai oriau. Hefyd, Croesffyrdd yw'r unig sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth hybrid gofal cartref mewn cyfuniad â'r gwasanaeth gwybodaeth ac allgymorth.

Mae ffocws cynyddol ar werth cymdeithasol a budd cymunedol mewn caffael cyhoeddus wedi bod yn allweddol i dwf Croesffyrdd. Gyda phwysoliad o 70% ar gyfer ansawdd caffael yn Sir Gâr, er enghraifft, mae

Croesffyrdd yn gallu manteisio ar y buddsoddiad mewn gwasanaethau o safon. Gan gydnabod y gall caffael cyhoeddus beri risg i fusnesau cymdeithasol, mae Croesffyrdd wedi gofalu ei fod yn arallgyfeirio ei sail cwsmeriaid ac yn darparu contractau ar gyfer pob math o wahanol gomisiynwyr. Mae'r tîm wedi dod yn llwyddiannus iawn yn y broses dendro hefyd.

Mae gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol wedi bod yn hollbwysig i alluogi'r arallgyfeirio hwn. Fel arfer, mae newidiadau i'r ddarpariaeth ofal o ganlyniad i benderfyniadau gan lywodraeth genedlaethol a lleol. Mae ymrwymiad i gyfarfodydd adolygu gwasanaeth rheolaidd gyda'r comisiynydd iechyd lleol wedi golygu bod Croesffyrdd bellach yn cael ei gydnabod fel rhanddeiliad allweddol ac yn gallu bwydo ei safbwynt 'llawr gwlad' wrth ddatblygu polisi. Cafodd Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Sir Gâr, er enghraifft, ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol.



## 04 | ASTUDIAETH ACHOS Croesffyrdd Sir Gâr

### Ymwneud â'r economi leol

Mae'r rhan fwyaf o 120 o aelodau staff Croesffyrdd yn byw'n lleol. Felly, mae'r gyflogaeth o safon uchel a gynigir yn gwneud cyfraniad pwysig at yr economi leol. Yn ogystal, mae staff sy'n symud ymlaen i gael swyddi eraill yn y sector iechyd a gofal iechyd yn cynrychioli sgil-ffaith gyda'r sgiliau sy'n cael eu meithrin gan y cwmni yn cryfhau gweithgareddau yn y sector gofal yn fwy eang.

Mae effaith gadarnhaol ar yr economi leol yn cael ei chynhyrchu hefyd trwy waith Croesffyrdd gyda'i gadwyn gyflenwi. Er bod ffocws ar gyfarpar arbenigol yn y sector gofal iechyd yn aml yn arwain at ddefnyddio darparwyr o fannau eraill, mae

Croesffyrdd yn ceisio canolbwyntio ei gaffael ei hun mor lleol â phosibl. Mae offer swyddfa, er enghraifft, yn cael ei gaffael yn lleol, ond mae'r rhan fwyaf o'r cyfarpar craidd yn deillio o arweinwyr y farchnad o fannau eraill. Er enghraifft, nid oedd ansawdd y menig plastig a ddarparwyd gan ddarparwr lleol yn ddigon da ac, o ganlyniad, penderfynwyd mynd ati i brynu'r menig gan gyflenwr cenedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o 120 o aelodau staff Croesffyrdd yn byw'n lleol. Felly, mae'r gyflogaeth o safon a gynigir yn gwneud cyfraniad pwysig at yr economi leol.